Sut i wneud cais

Dylai myfyrwyr isradd lenwi'r ffurflen gais a'i dychwelyd erbyn Mawrth 4 2010. (myfyrwyr ôl-radd i gysylltu gyda Lowri Bulman)

Am wybodaeth bellach cysylltwch gyda Lowri Bulman ar (029) 2087 0695 neu l.bulman@mantais.ac.uk

Profiad gwaith a thaliadau

Pwrpas y cynllun yw cynyddu'r niferoedd o arbenigwyr Cymraeg yn y maes amgylcheddol, hyrwyddo a chynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector addysg uwch mewn meysydd amgylcheddol a chynnig cyfleoedd gyrfaol i siaradwyr Cymraeg mewn meysydd amgylcheddol trwy ddarparu lleoliadau gwaith addas a pherthnasol.

Profiad Gwaith
Bydd myfyrwyr AmNawdd yn gwneud y lleoliad gwaith ar ddiwedd yr ail flwyddyn o'r cwrs fel arfer, ond mae'n bosib ei drefnu ar gyfer diwedd y flwyddyn gyntaf, neu ar ddiwedd y cwrs. Mae hyn yn dibynnu ar amserlen y cwrs, ac os bydd lleoliad addas ar gael ar y pryd gan yr asiantaethau neu gyrff perthnasol eraill sy'n rhan o'r cytundeb profiad gwaith.

Pan ymunodd Helen Howells â'r Cyngor Cefn Gwlad ddwy flynedd yn ôl, un o'r tasgau cyntaf o'i blaen oedd bod yn rhan o Bartneriaeth Dyfi a'u helpu gyda chais y Biosffer.

Ymunodd â'r Cyngor Cefn Gwlad ar ôl bod ar y cynllun AmNawdd ym Mhrifysgol Aberystwyth wrth astudio Datblygu Gwledig Cynaliadwy. Wrth dreulio cyfnod profiad gwaith ar brosiect Tir Gofal y cafodd hi flas ar weithio gyda'r Cyngor. "Mi wnes i sylweddoli fy mod i am fod yn rhan o'r symudiad i ddiogelu cefn gwlad a'i ddatblygu mewn ffordd synhwyrol," meddai.

Erbyn hyn mae Helen yn dal i weithio ar Fiosffer Dyfi, ond hefyd yn rheoli deuddeg grant gwahanol, o brosiectau i ymwneud a bywyd gwyllt y môr yn Sir Benfro i weithio gyda phobl ifanc sydd wedi eu heithrio o'r ysgol.

Yr asiantaethau sy'n noddi'r cynllun:

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn hybu'r amgylchedd, tirweddau a dyfroedd morol Cymru. Eu hamcan yw gwneud yr amgylchedd yn rhan werthfawr o fywyd pawb sy'n byw yng Nghymru.

Yn ôl Roger Thomas, Prif Weithredwr y Cyngor Cefn Gwlad: "Yn y gorffennol, rydym wedi cael trafferth i recriwtio siaradwyr Cymraeg mewn swyddi gwyddonol. Roedd y Cyngor o'r farn fod angen cryfhau'r cysylltiadau gyda phrifysgolion er mwyn galluogi siaradwyr Cymraeg i ymgeisio am swyddi'n ymwneud â'r amgylchedd wedi iddyn nhw raddio. Ers i'r cynllun noddi ddechrau yn 2003, rydym wedi gallu recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg, ac mae hyn wedi gwella ein perthynas â'r cyhoedd."

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

Bwriad y Comisiwn Coedwigaeth yw cyflwyno 'Coed Campus Cymru Campus' gan obeithio y bydd holl goetiroedd Cymru'n cael eu rheoli'n gynaliadwy ac yn cael eu gwerthfawrogi gan bobl Cymru.

Dywedodd Trefor Owen Cyfarwyddwr,Comisiwn Coedwigaeth Cymru "Rydym ni angen graddedigion trwy gyfrwng y Gymraeg i allu cyfrannu at ein gwaith ac mae'r cynllun hwn yn fodd o annog myfyrwyr i wneud hynny a chael profiad yn y maes i'w paratoi ar gyfer y byd gwaith."

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Environment Agency Wales

Gwaith Asiantaeth yr Amgylchedd yw gwarchod yr amgylchedd a'i wneud yn lle gwell - i chi, a chenedlaethau'r dyfodol.

Dywedodd Chris Mills (Cyfarwyddwr Cymru o asiantaeth yr Amgylchedd) "...mae hwn yn gynllun gwerth chweil gan ei fod yn cydnabod gwerth a phwysigrwydd y Gymraeg i gyflogwyr fel yr Asiantaeth ym maes yr amgylchedd. Mae hefyd yn rhoi cyfle i'r myfyrwyr gael profiad gwaith gyda'r cyrff amgylcheddol sy'n rhoi sylfaen ymarferol iddyn nhw. Y gobaith yw y bydd yn eu hannog i ymgeisio am swyddi yn y maes. Mae nifer wedi manteisio ar y cyfle yn barod ac mae sawl un wedi llwyddo i gael swyddi parhaol gyda'r cyrff amgylcheddol, sy'n cryfhau ein gallu i ddelio â'r cyhoedd yn Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg."

Meddai Geraint George, Cyfarwyddwr Rheolaeth Cefn Gwlad ym Mhrifysgol Cymru Bangor, ac un a gynorthwyodd i roi'r cynllun ar waith:
"Braf iawn yw gweld cyrff amgylcheddol yn cynnig cefnogaeth ymarferol i'n myfyrwyr Cymraeg. Wrth gwrs, mae'r myfyrwyr yn elwa ar y cymorth ariannol, ond mae'r profiad gwaith hefyd yn gwbl allweddol wrth eu cynorthwyo i ddatblygu gyrfaoedd ym maes cadwraeth ac – yn bwysicach, efallai - wrth eu cynorthwyo i aros yng Nghymru."

Taliadau
Bydd y taliad cyntaf o £500 ar ddechrau'r ail semester yn ddibynnol ar gwblhau'r cwrs yn llwyddiannus hyd at y cyfnod hwnnw. Mae bwrsariaeth o £500 ar gael i wneud lleoliad gwaith ac fe fydd hwn yn cael ei dalu yn ystod yr ail flwyddyn. Bydd y £500 arall yn cael ei dalu ar ddiwedd y cwrs yn amodol ar gwblhau'r cwrs yn llwyddiannus.

Mae Rhodri Dafydd yn gweithio fel Uwch Swyddog Cadwraeth gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru:
"Os ydych yn poeni am ddyfodol cefn gwlad Cymru yna un o'r pethau gorau allech ei wneud fyddai astudio pwnc sy'n mynd i gyfrannu at ffyniant yr ardaloedd hynny. Ffordd ardderchog o ennill y cymwysterau angenrheidiol i gael gwaith o'r fath fyddai gwneud cwrs perthnasol ym Mhrifysgolion Cymru a bydd ennill profiad gwaith yn ffordd dda o gael troed i mewn yn y byd cystadleuol sydd ohoni."